# Is-Grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy

# Cylch Gorchwyl

## Aelodau

| Enw'r aelod \| Name of member | Enw'r busnes \|Name of business |
|---|---|
| Nigel Treacy | Llandudno Snowsports Centre |
| Angharad Mair Owen | Parc Gwyliau Tŷ Gwyn |
| Clive Wolfendale ***Chair*** | Adferiad Recovery |
| Bryn  Jones | Cwrs Golff y Fedwen Arian |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws y Coed |
| Harry Pemberton | Snowdonia Bikes |
| Julie Mills | Vinomondo Ltd |
| Tracey Woodbine | Woody's Luxury Glamping |
| Tansy Rogerson | Armadillo Events |
| Brid Adams | The Quay Hotel and Spa |
| Sam Nayar | Escape Boutique B&B/ No9 Holiday Apartments |
| Dylan Wyn Evans | Adventure Parc Snowdonia / Hilton Garden Inn Snowdonia |
| Kimberley Edmunds | The Jester's Tower |
| Caroline Somary | Sweet Snowdonia |
| Adam Williams \| Eric Witherspoon | Pier Llandudno, Tir Prince, Kinmel Arms |
| Sally Paveley | The Motorsport Lounge |
| Jonathan Hughes | Snowdon Craft Beer Ltd |
| Nigel Leak | Harringtons at 14 |
| Graham Paul Jones | Grŵp Llandrillo Cymru |
| Hollie Harmsworth | Follow Films |
| Michael Thompson | Can-y-Bae a Chanllaw Twristiaeth Bathodyn Glas Cymru |
| Cai Ross | Paysanne |
| Dana Williams | Parc Cenedlaethol Eryri |

## Swyddogaethau

Bydd Is-grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy yn ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:

- Diweddaru'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a Chynllun Gweithredu cefnogol a monitro darpariaeth.
- Canolbwynt ar dwristiaeth gynaliadwy a'i effaith ar y gymuned leol
- Sicrhau bod gan y Sir y data cywir i lywio penderfyniadau.
- Sicrhau ein bod yn deall anghenion Ymwelwyr a'r gymuned.

**Strwythur**

- Bydd y grŵp yn penodi cadeirydd:- (Clive Wolfendale) wedi'i benodi.
- Bydd y Cadeirydd yn eistedd ar Fwrdd Cyrchfan Conwy a bydd yn sicrhau bod negeseuon yn llifo rhwng y grŵp SCGCC a'r Bwrdd.
- Roedd Aelodau wedi enwebu eu hunain ar gyfer y grŵp pan hysbysebwyd ailstrwythur Cyrchfan Conwy. Fodd bynnag, mae aelodau newydd yn gallu ymuno â'r grŵp, drwy gytundeb gyda'r Cadeirydd a rheolwr twristiaeth CBSC.
- Mae'r grŵp yn ddigon hyblyg i ganiatáu presenoldeb mewn cyfarfodydd gan bobl y tu allan i'r aelodaeth, os ystyrir bod eu cyfraniad neu bresenoldeb yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol. Cyn cytuno gan y Cadeirydd a rheolwr twristiaeth CBSC.
- Bydd CBSC yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfodydd (nodiadau prif gamau, gwahoddiadau cyfarfod, cyhoeddi nodiadau ar wefan twristiaeth).

**Perthynas gyda grwpiau eraill**

- Mae'n bwysig bod pump is-grŵp Cyrchfan Conwy yn hysbysu'r naill a'r llall am waith maent yn ei wneud. Bydd nodiadau pob cyfarfod yn cael eu harbed ar wefan twristiaeth y Sir (porthol busnes).

**Cyllid**

- Os yw'r grŵp yn dymuno gwneud cais am arian grant i gefnogi ei waith, byddai angen gwneud hyn drwy'r Bwrdd a'r ceisiadau o dan enw Partneriaeth Cyrchfan Conwy.

**Cynnal Busnes**

- Bydd y grŵp yn gweithredu ar sail consensws. Pan fo anghytundeb bydd y Cadeirydd, gan ddefnyddio pob sianel priodol, yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb sy'n codi o fewn y grŵp gyda chefnogaeth gan reolwr twristiaeth CBSC.

**Cyfarfodydd**

- Bydd yr is-grŵp SCGCC yn penderfynu ar batrwm cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod busnes y grŵp yn cael ei gynnal yn amserol a phriodol. Disgwylir i fodloni'n eang ar y seiliau canlynol. Er hwylustod yr aelodau, bydd y bartneriaeth yn cytuno ar raglen gwaith i'r dyfodol sy'n cynnwys dyddiad, amser a lleoliad cyfarfodydd, (neu ddolenni rhithiol) fel rheol chwe mis ymlaen llaw.
- Bydd y cyfarfodydd fel rheol yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd.
- Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn llunio rhaglen, a fydd yn cael ei chylchredeg cyn y cyfarfod. Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol hefyd ynghlwm.
- Bydd papurau ychwanegol yn cael eu hanfon gyda'r rhaglen a'r cofnodion.

- Gofynnir i holl drafodaethau yn y cyfarfodydd gael eu trin yn gyfrinachol, gan greu amgylchedd agored i deimlo'n hyderus i siarad yn rhydd.
- Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw, drwy gyfathrebu ac ymgynghori ymlaen llaw, gan gynnwys cyhoeddi gwaith y bartneriaeth a dosbarthu gwybodaeth i'r gymuned ehangach.
- Os bydd unrhyw aelod o'r is-grŵp yn dymuno ymddiswyddo o'r grŵp SCGCC mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hymddiswyddiad yn ysgrifenedig i Gadeirydd yr is-grŵp, os mai cadeirydd y grŵp sgiliau fydd yn ymddiswyddo mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu llythyr ymddiswyddiad i Gadeirydd Cyrchfan Conwy. Er y gall yr aelod sy'n ymddiswyddo argymell rhywun yn ei le, mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Grŵp cyn y gellir caniatáu i'r person hwnnw fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

.